ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

21/05/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gyda gwyliau hanner tymor y Sulgwyn yn nesáu, teimlwn yn gryf ei fod yn gyfle da i **ddisgyblion gael hoe o waith ysgol am yr wythnos**. Ni fydd gwaith felly yn cael ei osod i ddisgyblion o gwbl dros yr wythnos ac nid oes disgwyl i unrhyw ddisgybl chwaith dreulio amser ar waith ysgol. Gwell fydd treulio amser o ansawdd gyda'r teulu, yn ymlacio, cysylltu i gymdeithasu'n ddigidol gyda ffrindiau a theulu yn ddiogel ar lein a gwneud ymarfer corff dyddiol.

'Rwyf wedi derbyn ambell gwestiwn am osod gwaith dysgu o bell. Mae amserlen ddyddiol pryd mae pynciau penodol yn gosod gwaith, gydag wythnos neu bythefnos i gwblhau'r dasg yna. Rydym wedi parhau i osod gwaith yr wythnos hon gyda dyddiadau cau, yn y mwyafrif o achosion, yn cael eu gosod ar gyfer yr un diwrnod yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl hanner tymor. Mae hyn yn dilyn yr un patrwm o roi wythnos neu bythefnos ar gyfer cwblhau tasg, ond yn pontio dros wythnos hanner tymor. Ga i ofyn i chi fel rhieni i sicrhau bod disgyblion yn deall felly **nad oes** disgwyl iddyn nhw weithio dros hanner tymor – bydd cyfle i ail ddechrau gyda gwaith dysgu o bell ar ddydd Llun y 1af o Fehefin.

Mae ambell ddisgybl wedi codi pryder am rai dyddiadau cau wedi eu gosod ar gyfer hanner tymor. Rydym wedi trafod fel staff a bydd unrhyw ddyddiadau cau sydd wedi eu gosod ar gyfer hanner tymor yn cael eu newid i'r wythnos ganlynol. A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o hyn ac ni fydd angen gwneud gwaith neu gyflwyno gwaith wythnos nesaf? Bydd wythnos lawn o leiaf gan bawb i gwblhau tasgau gweithio o bell.

Mae pryder arall wedi codi am ddyddiadau cau yn cael eu gosod ar gyfer dydd Gwener yma ar gyfer gwaith yr wythnos hon. Yn naturiol, mae hyn y cynyddu'r llwyth gwaith sydd yn gallu achosi ychydig o bryder. Bydd staff eto yn sicrhau bod y dyddiadau yn cael eu newid i sicrhau bod wythnos neu bythefnos i gwblhau pob tasg. Eto, ni fydd disgwyl i ddisgyblion weithio dros hanner tymor.

Nodyn i atgoffa blwyddyn 9 y byddwn yn dechrau ar eich cyrsiau TGAU chi ar ôl hanner tymor. Gwiriwch lythyr yr 11eg o Fai ar ein safwe am fanylion pellach.

Rydym yn gwneud ar hyn o bryd, a byddwn yn parhau i gysylltu gyda'n disgyblion sydd angen ein cefnogaeth dros yr hanner tymor. Serch hyn, mae croeso i rieni gysylltu gyda ni os oes unrhyw bryder gennych am les eich plentyn. Defnyddiwch e-bost yr ysgol isod, fy e-bost i: DaviesS456@hwbcymru.net , neu Mr Bridgens ar ei e-bost ef: BridgensM@hwbcymru.net.

Yn ogystal, rydym yn awyddus iawn i gasglu mwy o'ch barn am ein darpariaeth 'Dysgu o Bellter' wrth i ni gynllunio ar gyfer hanner tymor nesaf. Gofynnwn yn garedig felly i chi lenwi'r holiadur hwn er mwyn i ni werthuso ac addasu yn ôl yr angen: https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5kzpPdK4TYHFAkE9j-vZL9bdUMEw0MDJPNFkyRDZYM1RFTzZZMzFXMFpPOC4u.

Mwynhewch yr hanner tymor.
Cofion cynnes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

21/05/20

Dear Parent / Guardian,

With the Whitsun half-term holiday approaching, we feel strongly that it is a good opportunity for pupils to have a break from schoolwork during this period. Work will not be set for pupils at all during the week and pupils are NOT expected to spend time on schoolwork during the half-term break. It would be beneficial for all our pupils' wellbeing if they spent quality time with family, contacted friends and family on-line and ensured they were exercising daily during this time.

I have received some questions about distance learning. There is a daily timetable where particular subjects set work, with one or two weeks to complete each task. We have continued to set work this week with deadlines, in most cases, being set for the same day in the first week after half term. This follows the same pattern of giving a week or two weeks to complete a task, but spans over a half-term week. Can I ask you as parents to ensure that pupils understand therefore that they are not expected to work over half term - there will be an opportunity to resume with distance learning work on Monday 1st June?

Some pupils have raised concerns about some deadlines set for half-term. We have discussed as a staff and any deadlines set for half term will be changed to the following week. Please ensure that your child is aware of this and they will not need to do work or submit work next week. Everyone will have at least a full week to complete remote working tasks.

Another concern has been raised from deadlines being set for this Friday for work set this week. Naturally, this increases the workload which can cause some anxiety. Staff will again modify the deadlines to ensure that each task has one or two weeks for completion. Again, pupils will not be expected to work over half term.

A reminder for year 9 that we will be starting the GCSE interim timetable after half-term. Please check the letter sent on May 11th on our website for further details.

As is our current practice, we will continue to contact our pupils who require support during the half-term holiday. However, if you feel you would like to discuss any concerns about your child's welfare, please get in touch. Use the school email below, my email: DaviesS456@hwbcymru.net, or contact Mr Bridgens via his email: BridgensM@hwbcymru.net

We are also very keen to gather more of your views on our 'Distance Learning' provision as we plan for next half term. We therefore kindly ask you to fill in this questionnaire so that we can evaluate and adapt as necessary: https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5kzpPdK4TYHFAkE9j-vZL9bdUMEw0MDJPNFkyRDZYM1RFTzZZMzFXMFpPOC4u .

Enjoy the half term.

Cofion cynes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Wales School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales